Cyllid &
Thollau EF

# Nodiadau i'ch helpu i wneud cais i gofrestru ar gyfer TAW

Bydd y nodiadau hyn yn eich helpu i ateb cwestiynau ar ffurflen VAT1 'Cais i gofrestru'.

Mae'r nodiadau wedi'u rhifo i gyfateb â'r cwestiynau ar y ffurflen.

Os bydd angen rhagor o le arnoch i roi ateb, ysgrifennwch ar ddalen o bapur ar wahân a sicrhewch eich bod yn rhoi enw a chyfeiriad yr ymgeisydd ar frig pob dalen.

Bydd y rhestr wirio ar dudalen 12 yn eich helpu i sicrhau eich bod yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol, gan gynnwys unrhyw ddogfennau eraill.

Ceir manylion ynghylch ble i anfon eich cais ar dudalen 13.

Mae Geirfa wedi'i chynnwys ar dudalennau 13 i 15.

Rydym yn argymell eich bod yn darllen Hysbysiad 700, y Canllaw TAW, cyn gwneud cais i gofrestru ar gyfer TAW er mwyn deall eich cyfrifoldebau. Ewch i www.gov.uk/guidance/vat-guide-notice-700

## Datganiad

Gan gyflwyno'r cais hwn i gofrestru ar gyfer TAW, rydych yn gwneud datganiad cyfreithlon bod yr wybodaeth yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf eich gwybodaeth a'ch cred. Gall datganiad ffug arwain at erlyniad.

**Ym mha rinwedd yr ydych yn llofnodi'r cais**

**Ar gyfer unig fasnachwyr**

Yr unig berchennog, sef y perchennog.

**Ar gyfer partneriaethau**

Un o'r partneriaid, sef un o'r perchnogion – mae'n rhaid rhoi manylion llawn a llofnodion pob partner ar ffurflen VAT2 neu hysbysiad cyfatebol.

Ewch i www.gov.uk/government/publications/vat-partnership-details-vat2.cy

Nid yw ffurflenni a anfonir drwy ffacs, na llungopïau yn dderbyniol.

**Ar gyfer cyrff corfforaethol**

Cyfarwyddwr neu ysgrifennydd y cwmni, neu lofnodwr awdurdodedig.

**Ar gyfer cyrff anghorfforedig**

Swyddog sy'n gwneud cais ar ran corff anghorfforedig, er enghraifft ysgrifennydd, ymddiriedolwr.

**Asiant awdurdodedig**

Unigolyn sydd wedi'i awdurdodi gan yr ymgeisydd sy'n cael ei gofrestru i weithredu ar ei ran.

## Ynglŷn â'r busnes

Mae'n ofynnol i fusnesau sydd heb sefydliad yn y DU gofrestru a rhoi cyfrif am unrhyw TAW yn y DU i CThEF os yw'r canlynol yn wir:

- maent yn gwneud cyflenwadau trethadwy o unrhyw werth yn y DU
- maent yn disgwyl gwneud cyflenwadau trethadwy yn y DU yn ystod y 30 diwrnod nesaf

Bydd yn ofynnol i fusnes sydd heb ei sefydlu yn y DU gofrestru o'r dyddiad cynharaf pan wnaeth, neu pan wnaeth bwriadu gwneud cyflenwadau trethadwy yn y DU yn ystod y 30 diwrnod nesaf.

Yn y naill achos neu'r llall, mae gan fusnes sydd heb ei sefydlu yn y DU 30 diwrnod o'r dyddiad hwnnw i roi gwybod i CThEF ei fod yn ofynnol iddo gofrestru ar gyfer TAW.

**Person trethadwy sydd heb ei sefydlu (NETP)**

Diffinnir 'person trethadwy sydd heb ei sefydlu' fel unrhyw berson sydd heb sefydliad yn y DU.

**Sefydliad yn y DU**

Mae sefydliad yn y DU yn bodoli os yw'r naill neu'r llall o'r canlynol yn wir:

- mae'r man lle caiff penderfyniadau rheoli hanfodol eu gwneud, a lle caiff gweinyddiaeth ganolog y busnes ei chynnal, yn y DU
- mae gan y busnes bresenoldeb corfforol parhaol gyda'r adnoddau dynol a thechnegol i wneud neu dderbyn cyflenwadau trethadwy yn y DU

Fel arfer byddwn yn ystyried bod gan gwmni sydd wedi'i ymgorffori yn y DU sefydliad yn y DU cyn belled â'i fod yn gallu gwneud neu dderbyn cyflenwadau busnes yn ei gyfeiriad busnes cofrestredig.

**Sefydliad yn y DU**

Os oes gennych sefydliad yn y DU, nid ydych yn NETP. Byddwch y cael eich cofrestru yng nghyfeiriad eich prif leoliad busnes yn y DU. Dylai'ch cofnodion a chyfrifon cael eu cadw yn y cyfeiriad hwn, a dylai nhw fod ar gael i CThEF eu harchwilio.

Dylech wneud yn siŵr y gall rhywun sy'n gyfrifol am eich materion TAW fod ar gael yn y cyfeiriad.

**Cwestiwn 1 Nodwch y math o fusnes**

Mae angen i CThEF gofrestru'ch busnes yn gywir yn ein cofnodion er mwyn gwella rheolaeth y wahanol drethi a thollau (er enghraifft Hunanasesiad, Treth Gorfforaeth a TAW) ar y cofnod hwnnw.

Mae'r math o endid cyfreithiol sy'n berthnasol i'ch busnes yn pennu pa fath o dreth sydd angen i chi roi gwybod amdani. Mae'n bwysig felly ein bod yn sefydlu'ch cofnod o dan y math cywir o endid.

Adolygwch y disgrifiadau isod ar gyfer y mathau o endid, penderfynwch pa un sy'n gywir ar gyfer eich busnes a llenwch yr adran ar gyfer y math yna o endid cyfreithiol. Mae'r rhain i'w gweld yn naill ai cwestiwn 1 neu gwestiwn 2 ar y ffurflen.

Dewiswch un endid yn unig.

**Unig Fasnachwr**

Os ydych yn unig fasnachwr, rydych yn rhedeg eich busnes eich hun fel unigolyn ac yn hunangyflogedig, llenwch yr adran yng nghwestiwn 1. Nodwch y dyddiad yn y fformat DD MM BBBB (dyddiad mis blwyddyn), er enghraifft 01/10/1970.

**Partneriaeth gyffredinol**

Mae partneriaeth gyffredinol wedi'i ffurfio o 2 neu fwy o bobl sy'n masnachu gyda'i gilydd. Bydd un o'r partneriaid yn cael ei 'enwebu' i ddelio â CThEF. Nid oes gan bartneriaethau cyffredinol fodolaeth gyfreithiol sydd ar wahân i'r partneriaid eu hunain. Mae'r rhan fwyaf o bartneriaethau o'r math hwn. Llenwch yr adran yng nghwestiwn 1.

**Partneriaeth yn yr Alban**

Mae partneriaeth yn yr Alban yr un peth â phartneriaeth gyffredinol ond mae'n endid cyfreithiol ar wahân, hynny yw, ar wahân i'r partneriaid eu hunain. Mae'n rhaid i gyfeiriad y busnes fod wedi'i gofrestru yn yr Alban. Llenwch fel partneriaeth gyffredinol yng nghwestiwn 1.

**Partneriaeth gyfyngedig**

Mae partneriaeth gyfyngedig wedi'i ffurfio o bartneriaid cyffredinol a phartneriaid cyfyngedig. Mae'n rhaid i'r bartneriaeth gyfyngedig gofrestru â Thŷ'r Cwmnïau, ond nid oes rhaid i'r bartneriaeth gyflwyno datganiad blynyddol. Bydd gan y partneriaid cyfyngedig atebolrwydd cyfyngedig am ddyledion. Llenwch yr adran yng nghwestiwn 1.

**Cwestiwn 2 Cyrff corfforaethol**

**Diffiniad o gorff corfforaethol**

Grŵp o unigolion sy'n cael eu hadnabod gan enw penodol sy'n gweithredu fel endid cyfreithiol unigol. Mae'r canlynol yn cael eu hystyried yn gyrff corfforaethol:

- cwmnïau cyfyngedig (a'r hyn sy'n cyfateb dramor)
- cwmnïau a sefydlwyd gan Siarter Frenhinol, Breinlythyrau neu Ddeddfau Seneddol
- partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig
- grwpiau budd economaidd Ewropeaidd
- cymdeithasau cyfeillgar, diwydiannol a darbodus

**Cwmni yn y DU**

Diffinnir 'Cwmni yn y DU' fel cwmni corfforedig sydd wedi'i ffurfio drwy gofrestru â Thŷ'r Cwmnïau. Llenwch yr adran Cyrff Corfforaethol (yn cynnwys partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig) yng nghwestiwn 2.

**Partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig**

Mae'n rhaid i bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig gael ei chofrestru yn Nhŷ'r Cwmnïau. Mae partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn cael ei threthi fel partneriaethau, ond gyda'r buddion o fod yn endid corfforaethol. Mae gan bob partner atebolrwydd cyfyngedig am ddyledion. Llenwch yr adran Cyrff Corfforaethol (yn cynnwys partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig) yng nghwestiwn 2.

**Partneriaeth atebolrwydd yn yr Alban**

Mae partneriaeth atebolrwydd yn yr Alban yn debyg i bartneriaeth gyfyngedig. Mae wedi'i ffurfio o bartneriaid cyffredinol a phartneriaid cyfyngedig. Mae gan bartneriaeth atebolrwydd yn yr Alban endid cyfreithiol ar wahân, ac mae gan y partneriaid cyfyngedig atebolrwydd cyfyngedig am ddyledion. Mae'n rhaid i gyfeiriad y busnes fod wedi'i gofrestru yn yr Alban. Llenwch yr adran Cyrff Corfforaethol (yn cynnwys partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig) yng nghwestiwn 2.

**Sefydliad Corfforedig Elusennol**

Diffinnir 'Sefydliad Corfforedig Elusennol' fel strwythur corfforedig sydd wedi'i ddylunio ar gyfer elusennau. Rydych yn Sefydliad Corfforedig Elusennol os ydych wedi cofrestru â'r Comisiwn Elusennau neu Reoleiddiwr Elusennau'r Alban. Os ydych yn elusen ond wedi'ch strwythuro'n wahanol i Sefydliad Corfforedig Elusennol, er enghraifft fel cwmni, yna mae'n rhaid i chi gofrestru ar gyfer TAW fel cwmni. Llenwch yr adran yng nghwestiwn 2.

**Ymddiriedolaeth**

Diffinnir 'Ymddiriedolaeth' fel trefniant lle mae un neu fwy o bartïon (yn y rôl 'ymddiriedolwr') yn rheoli asedion ar ran un neu fwy o bartïon eraill (yn y rôl 'setlwr') er budd un neu fwy o bartïon eraill (yn y rôl 'buddiolwr'). Llenwch yr adran yng nghwestiwn 2.

**Cymdeithas gofrestredig**

Mae cymdeithas gofrestredig wedi'i ymgorffori gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, ac mae hefyd yn ymddangos ar gofrestr Tŷ'r Cwmnïau.

Mae cymdeithasau cofrestredig yn cynnwys y canlynol:

- cymdeithasau cydweithredol – busnesau sy'n cael eu rhedeg er budd eu haelodau, ac yn rhannu elw rhwng yr aelodau hyn
- cymdeithasau budd cymunedol – busnesau sy'n cael eu rhedeg er budd y gymuned ehangach, ac yn ail-fuddsoddi elw yn y gymuned
- 'cymdeithasau cyn-gychwyn' (cymdeithasau diwydiannol a darbodus a gofrestrwyd cyn 1 Awst 2014)

Llenwch yr adran yng nghwestiwn 2.

**Cymdeithas Anghorfforedig**

Diffinnir 'Cymdeithas Anghorfforedig' fel sefydliad a sefydlwyd drwy gytundeb rhwng grŵp o bobl sy'n dod at ei gilydd am reswm heblaw gwneud elw (er enghraifft, grŵp gwirfoddol neu glwb chwaraeon). Nid yw hyn yn atal y Gymdeithas Anghorfforedig rhag masnachu a gwneud elw – ond nid dyna yw'r prif bwrpas. Llenwch yr adran yng nghwestiwn 2.

Mae angen i chi roi'ch cyfeirnodau treth i CThEF er mwyn ein helpu i ddod o hyd i unrhyw gofnodion sydd gennym ar eich cyfer. Defnyddir gwahanol gyfeirnodau treth gan wahanol drethi a thollau a reolir gan CThEF. Gofynnir am y cyfeirnodau disgwyliedig yn yr adran ar gyfer mathau o endid.

**Beth yw Cyfeirnod Unigryw y Trethdalwr ar gyfer Treth Gorfforaeth?**

Rhif 10 digid yw hwn, er enghraifft 1234567890. Bydd i'w weld ar Ffurflenni Treth a llythyrau eraill ynghylch Treth Gorfforaeth. Efallai y cyfeirir ato gan ddefnyddio'r geiriau 'cyfeirnod', 'UTR' neu 'defnydd swyddogol'.

**Beth yw Cyfeirnod Unigryw y Trethdalwr ar gyfer Hunanasesiad?**

Rhif 10 digid yw hwn, er enghraifft 1234567890. Bydd i'w weld ar Ffurflenni Treth a llythyrau eraill ynghylch Hunanasesiad. Efallai y cyfeirir ato gan ddefnyddio'r geiriau 'cyfeirnod', 'UTR' neu 'defnydd swyddogol'.

**Beth yw Rhif Cofrestru Cwmni?**

Bydd gennych Rif Cofrestru Cwmni os ydych wedi cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau. Fel arfer bydd hwn naill ai ar ffurf rhif 8 digid, neu 2 lythyren wedi eu dilyn gan 6 digid/rhif. Efallai y cyfeirir ato gan ddefnyddio'r geiriau 'Rhif Cofrestru Tŷ'r Cwmnïau', 'CRN' neu 'rhif cwmni'.

**Beth yw rhif Yswiriant Gwladol?**

Bydd y rhif hwn i'w weld ar eich cerdyn Yswiriant Gwladol, llythyr ynghylch budd-daliadau, slip cyflog neu P60, neu yn ap CThEF. Er enghraifft, 'QQ123456C'.

**Beth yw Cyfeirnod Adran Elusennau CThEF?**

Bydd gennych Gyfeirnod Adran Elusennau CThEF os ydych wedi cael cydnabyddiaeth gan CThEF eich bod yn gallu hawlio treth yn ôl, fel elusen, ar bethau megis cyfraniadau Rhodd Cymorth. Mae'n (hyd at) 7 cymeriad ac yn dechrau gyda naill ai 1 neu 2 lythyren wedi'u dilyn gan (hyd at) 5 rhif.

**Beth os nad wyf yn fusnes yn y DU neu'n fusnes sydd heb ei sefydlu yn y DU?**

Rhowch y cyfeirnod cyfatebol ar gyfer eich math chi o fusnes o'r wlad lle mae'ch busnes wedi'i gofrestru.

**Cwestiwn 3 A ydych yn cofrestru fel aelod cynrychiadol neu gorff corfforedig a enwebwyd o grŵp TAW?**

Mae'r cwestiwn hwn dim ond yn berthnasol os ydych yn bwriadu cofrestru 2 neu fwy o gyrff corfforaethol o dan un cofrestriad fel eu haelod cynrychioliadol. Gweler 'grŵp TAW' yn yr Eirfa ar dudalen 15 i gael rhagor o fanylion.

**Cwestiwn 4 Manylion cyswllt y busnes**

**Cyfeiriad y busnes**

Rhowch y cyfeiriad lle bydd y busnes yn gweithredu o ddydd i ddydd. Ar gyfer y rhan fwyaf o fusnesau dylai'r cyfeiriad hwn fod yn y Deyrnas Unedig (y DU). Fel rheol gyffredinol, ni allwn gofrestru'r busnes gan ddefnyddio Blwch Swyddfa'r Post, cyfeiriad 'dan ofal' (d/o) na chyfeiriad cyfrifydd. Mae'r rhain yn dderbyniol mewn amgylchiadau eithriadol yn unig.

**Cyfeiriadau y tu allan i'r DU**

Os ydych yn gwneud cais i gofrestru am TAW yn y DU ond eich bod dramor, gallwch ddelio'n uniongyrchol â CThEF neu benodi cynrychiolydd treth neu asiant sydd yn y DU i ddelio â CThEF ar eich rhan. Nodwch gyfeiriad eich busnes, gan gynnwys y wlad lle mae'r busnes yn gweithredu, yn yr adran hon.

I benodi cynrychiolydd treth i ddelio â'ch materion TAW yn y DU, llenwch ffurflen VAT1TR. Ewch i www.gov.uk/government/publications/vat-appointment-of-tax-representative-vat1tr.cy

I gael rhagor o wybodaeth ynghylch sut i benodi asiant, cyfeiriwch at Hysbysiad TAW 700/1, 'Pwy ddylai gofrestru ar gyfer TAW'.

**Manylion cyswllt eraill**

Rhowch rifau ffôn a chyfeiriadau e-bost rhag ofn y bydd angen i ni gysylltu â chi.

**Eich dewis o ran cysylltu**

Mae'r dewis hwn ar gyfer allbynnau awtomataidd gan CThEF, pan gall neges ddigidol gael ei hanfon yn hytrach na llythyr. Mae'n bosibl y bydd amgylchiadau pan fydd yn rhaid i CThEF anfon llythyr, ni waeth pa ddewis yr ydych wedi'i nodi.

Mewn unrhyw amgylchiadau eraill, mae'n rhaid i drefniadau gael eu gwneud ar wahân er mwyn galluogi gohebiaeth e-bost rhyngoch chi a CThEF.

**Rheswm dros gofrestru**

Gellir nodi un rheswm yn unig dros eisiau cofrestru ar gyfer TAW. Darllenwch yr arweiniad i gyd ar y gwahanol resymau a dewiswch un adran yn unig i'w lenwi ar y ffurflen.

**Cwestiwn 5 Cymryd busnes byw drosodd**

A ydych yn cofrestru ar gyfer TAW oherwydd eich bod wedi:

- cymryd (neu ar fin cymryd) busnes (neu ran o fusnes) drosodd fel busnes byw
- newid (neu ar fin newid) statws cyfreithiol busnes sydd wedi'i gofrestru ar gyfer TAW

Digwyddir 'trosglwyddiad o fusnes byw' pan fyddwch yn cymryd busnes neu ran o fusnes drosodd, p'un a ydych yn bwriadu parhau i redeg y busnes hwnnw yn yr un modd ai peidio. Drwy 'newid statws cyfreithiol' yr ydym yn golygu newid, er enghraifft, o berchnogaeth unigol i bartneriaeth neu gwmni cyfyngedig.

**Sut i gyfrifo'r dyddiad pryd y daw eich cofrestriad i rym**

I gyfrifo'r dyddiad pryd y daw eich cofrestriad i rym, mae'n rhaid i chi gyfrifo a oes angen i chi gofrestru ar gyfer TAW. Dyma'r camau i'w cymryd:

- gwiriwch werth y nwyddau a'r gwasanaethau a werthwyd gan y busnes a drosglwyddwyd, neu gan ran o'r busnes hwnnw, yn y 12 mis cyn y trosglwyddiad
- os oeddech eisoes yn berchennog ar fusnes, ychwanegwch werth unrhyw nwyddau a gwasanaethau a gyflenwyd gennych yn y 12 mis cyn y trosglwyddiad
- os yw'r cyfanswm dros y trothwy cofrestru, mae'n rhaid i chi gofrestru cyn pen 30 diwrnod i'r trosglwyddiad – y dyddiad pryd y daw eich cofrestriad i rym fydd y dyddiad y digwyddodd y trosglwyddiad
- os yw'r cyfanswm yn is na'r trothwy cofrestru, does dim angen i chi gofrestru nawr

Fodd bynnag, bydd yn rhaid i chi gael cofnodion trosiant y busnes a drosglwyddwyd. Wedyn, bydd yn rhaid i chi wirio gwerth cyfunol unrhyw nwyddau a gwasanaethau a gyflenwyd bob mis i weld a ydynt yn mynd dros y trothwy. Gweler y nodiadau ar gyfer cwestiwn 8.

Efallai y bydd angen i chi wirio eich trosiant yn rheolaidd.

**A ydych am gadw rhif TAW y perchennog blaenorol?**

Mewn rhai amgylchiadau gallwch wneud cais i gadw Rhif Cofrestru TAW y perchennog blaenorol.

Os gallwn ail-ddyrannu'r rhif i chi, byddwch yn:

- gyfrifol am gyfrifo'r holl TAW sy'n ddyledus ar gyfer yr holl gyfnod treth sy'n dod i ben ar ôl y dyddiad trosglwyddo – nid o'r dyddiad pryd y gwnaethoch gymryd drosodd yn unig
- gyfrifol am yr holl ddatganiadau TAW a wnaed cyn y trosglwyddiad
- gorfod cywiro unrhyw gamgymeriadau a thalu unrhyw log a allai fod yn ddyledus (ond bydd dim angen i chi dalu unrhyw gosb)

Os na allwn ail-ddyrannu'r rhif i chi, byddwn yn cyhoeddi rhif newydd.

Os ydych am gadw Rhif Cofrestru TAW y perchennog blaenorol, mae'n rhaid i chi anfon ffurflen VAT68 'Gwneud cais am drosglwyddo Rhif Cofrestru TAW' wedi'i llenwi, gyda'r ffurflen gais hon. Mae'n rhaid i'r ffurflen hon fod wedi'i llofnodi gan y perchnogion blaenorol a'r perchnogion newydd.

Gall y perchennog blaenorol lenwi ffurflen VAT68 yn ddigidol.
Ewch i www.gov.uk/government/publications/vat-request-for-transfer-of-a-registration-number-vat68.cy

Fel arall, gall y perchennog blaenorol gyflwyno cais ar-lein i ddatgofrestru, a dewis 'Newid Endid Cyfreithiol' fel y rheswm dros ganslo.

I gael rhagor o wybodaeth am gymryd drosodd fusnes byw, cyfeiriwch at Hysbysiad TAW 700/9 'Trosglwyddo busnes fel busnes byw'.

**Cwestiwn 6 Rydych yn gwneud cais am gofrestriad gwirfoddol oherwydd bod eich trosiant o dan y trothwy cofrestru**

Mae busnesau sy'n cofrestru ar gyfer TAW fel arfer yn gwneud hynny naill ai oherwydd bod eu trosiant trethadwy wedi mynd dros y trothwy cofrestru yn ystod y 12 mis blaenorol, neu oherwydd eu bod yn disgwyl iddo wneud hynny cyn pen y 30 diwrnod nesaf. Rydym yn esbonio'r sefyllfaoedd hyn yn fwy manwl yn y nodiadau ar gyfer cwestiwn 7 a chwestiwn 8.

Fodd bynnag, gallwch wneud cais i gofrestru ar gyfer TAW yn wirfoddol yn y sefyllfaoedd canlynol:

- rydych yn masnachu eisoes ac nid yw'ch trosiant yn mynd dros y trothwy cofrestru
- rydych yn bwriadu masnachu ond nid yw eich busnes wedi dechrau eto
- rydych wedi sefydlu, neu mae gennych sefydliad sefydlog, yn y DU ac rydych yn gwneud, neu'n bwriadu gwneud, cyflenwadau y tu allan i'r DU yn unig – nid yw'n ofynnol i chi gofrestru ar gyfer TAW, ond efallai yr ydych am adennill TAW caniataol ar gostau a godwyd arnoch wrth i chi wneud cyflenwadau y tu allan i'r DU, megis costau nwyddau, deunyddiau a gwasanaethau

Os yw hyn yn berthnasol i chi, nodwch y dyddiad pryd yr hoffech i'ch cofrestriad gychwyn.

Peidiwch â nodi dyddiad sy'n fwy na 4 blynedd cyn dyddiad eich cais.

Sylwer - efallai y byddwn yn gofyn am dystiolaeth gennych ynghylch y cyflenwadau yr ydych yn eu gwneud neu'n bwriadu eu gwneud.

Mae'r dyddiad cofrestru ar gyfer TAW yn bwysig. Mae'n ddyddiad sefydlog, ac o'r dyddiad hwnnw rhaid i chi roi cyfrif am dreth allbwn ar eich holl gyflenwadau trethadwy. Ni fydd CThEF yn ei newid, hyd yn oed yn yr achos hwn o gofrestru'n wirfoddol. Gellir gwneud newidiadau i ddyddiadau cofrestru mewn amgylchiadau eithriadol.

**Cwestiwn 7 Rydych yn cofrestru oherwydd bod eich trosiant trethadwy wedi mynd dros y trothwy cofrestru yn ystod unrhyw gyfnod o 12 mis neu lai yn y gorffennol**

Trosiant trethadwy ar gyfer TAW yw cyfanswm gwerth eich cyflenwadau (fel arfer cyflenwadau o nwyddau a gwasanaethau – gweler yr Eirfa ar dudalen 13) sy'n cael eu trethu ar y gyfradd safonol, cyfradd is neu gyfradd sero. Nid yw cyflenwi nwyddau a gwasanaethau sydd wedi'u heithrio rhag TAW yn rhan o'ch trosiant trethadwy.

Diffinnir 'cyflenwad' (heblaw am gyflenwad sydd wedi'i eithrio) fel cyflenwad trethadwy hyd yn oed os nad ydych wedi cofrestru. Os yw gwerth eich cyflenwadau trethadwy yn ystod unrhyw gyfnod o 12 mis neu lai yn y gorffennol wedi mynd dros y trothwy cofrestru ar gyfer TAW, mae'n rhaid i chi roi 'X' wrth gwestiwn 7.

I gael gwybod y trothwyon a chyfraddau TAW cyfredol:

- ewch i www.gov.uk a chwilio am 'VAT registration thresholds'
- ffoniwch ein Llinell Gymorth TAW ar 0300 200 3705

Mae'n rhaid i chi lenwi ac anfon ffurflen VAT1 cyn pen 30 diwrnod i ddiwedd y mis pryd yr aeth eich trosiant trethadwy dros y trothwy. Os na fyddwch yn cofrestru ar gyfer TAW ar yr adeg gywir, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu cosb yn ogystal ag unrhyw TAW sy'n ddyledus.

Y dyddiad pryd y daw eich cofrestriad i rym fydd diwrnod cyntaf yr ail fis ar ôl i'ch cyflenwadau trethadwy fynd dros y trothwy cofrestru. Er enghraifft, os aethoch dros y trothwy ar 31 Awst, byddai'n rhaid i chi roi gwybod i ni erbyn 30 Medi, a'ch dyddiad cofrestru fyddai 1 Hydref.

**Cwestiwn 8 Rydych yn cofrestru oherwydd eich bod yn disgwyl i'ch trosiant trethadwy fynd dros y trothwy cofrestru yn y 30 diwrnod nesaf**

Rhowch 'X' wrth gwestiwn 8 os yw'r canlynol yn berthnasol:

- mae gwerth y cyflenwadau trethadwy yr ydych yn disgwyl eu gwneud yn y 30 diwrnod nesaf yn golygu y byddwch yn mynd dros y trothwy TAW
- eich bod, ar ryw adeg yn y gorffennol, wedi disgwyl y byddai gwerth eich cyflenwadau trethadwy yn mynd dros y trothwy yn y 30 diwrnod nesaf

Gallai hyn ddigwydd, er enghraifft, pan fo busnes yn bwriadu cynnal arddangosfa ac yn rhagweld gwerthu cynifer o docynnau fel ei fod yn disgwyl mynd dros y trothwy ar gyfer TAW. Enghraifft bosibl arall yw busnes sy'n ennill contract mawr i gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, a fyddai'n golygu cynyddu'n sylweddol y cyflenwadau a fwriadwyd dros y 30 diwrnod nesaf.

Mae'n rhaid i chi lenwi ac anfon ffurflen VAT1 cyn pen 30 diwrnod i'r diwrnod pryd y gwnaethoch ddisgwyl y gallech fynd dros y trothwy TAW. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi gofrestru cyn i'ch cyflenwadau trethadwy fynd dros y trothwy.

I gael rhagor o wybodaeth am sut i gyfrifo'ch trosiant, cyfeiriwch at Hysbysiad TAW 700/1, 'Pwy ddylai gofrestru ar gyfer TAW'.

Os yw cwestiwn 7 a chwestiwn 8 yn berthnasol, atebwch gwestiwn 8 yn unig.

**Dyddiad y daw'r cofrestriad i rym**

Y dyddiad pryd y daw eich cofrestriad i rym fydd y dyddiad pryd yr oeddech yn disgwyl y byddech yn mynd dros y trothwy yn y 30 diwrnod nesaf. Er enghraifft, os mai 20 Ionawr ydyw a'ch bod yn disgwyl mynd dros y trothwy yn y 30 diwrnod nesaf, mae'n rhaid i chi lenwi ac anfon ffurflen VAT1 erbyn 21 Chwefror. Yn yr achos hwn, y dyddiad pryd y daw eich cofrestriad i rym fydd 20 Ionawr.

Wrth i chi lenwi'r ffurflen ac ateb yr holl gwestiynau sy'n berthnasol i chi, mae'n bosibl y byddwch yn sylweddoli nad oes angen i chi gofrestru ar gyfer TAW ar hyn o bryd, gan nad ydych wedi mynd dros y trothwy. Os bydd hyn yn digwydd, gwiriwch eich trosiant yn rheolaidd, unwaith y mis. Ystyriwch eich sefyllfa bob mis ar gyfer cwestiynau 7 ac 8.

Mae cwestiwn 7 yn cyfeirio at eich trosiant yn y gorffennol.

Mae cwestiwn 8 yn cyfeirio at eich trosiant yn y dyfodol.

Os byddwch yn mynd dros y trothwy, bydd yn rhaid i chi wneud cais i gofrestru ar gyfer TAW. Dim ond 30 diwrnod fydd gennych i lenwi'ch cais a'i anfon i mewn.

Cofiwch: Os ydych wedi cymryd 'busnes byw' drosodd ac nad oedd angen i chi gofrestru ar ddyddiad y newid, byddwch yn dal i orfod cynnwys trosiant y busnes hwnnw cyn y trosglwyddiad. Sicrhewch eich bod yn ystyried hyn wrth wirio eich trosiant. Fel yr esboniwyd yn y nodiadau ar gyfer cwestiwn 5, mae'n rhaid i chi gael cofnodion trosiant y busnes a drosglwyddwyd.

**Cwestiwn 9 Rydych yn cofrestru oherwydd eich bod yn berson trethadwy sydd heb ei sefydlu sy'n gwneud, neu'n bwriadu gwneud cyflenwadau trethadwy yn y DU**

Mae'n ofynnol i fusnesau sydd heb sefydliad yn y DU gofrestru a rhoi cyfrif am unrhyw TAW yn y DU i CThEF os yw'r canlynol yn wir:

- maent yn gwneud cyflenwadau trethadwy o unrhyw werth yn y DU
- maent yn disgwyl gwneud cyflenwadau trethadwy yn y DU yn ystod y 30 diwrnod nesaf

Bydd yn ofynnol i fusnes sydd heb ei sefydlu yn y DU gofrestru o'r dyddiad cynharaf pan wnaeth, neu pan wnaeth bwriadu gwneud cyflenwadau trethadwy yn y DU yn ystod y 30 diwrnod nesaf.

Yn y naill achos neu'r llall, mae gan fusnes sydd heb ei sefydlu yn y DU 30 diwrnod o'r dyddiad hwnnw i roi gwybod i CThEF ei fod yn ofynnol iddo gofrestru ar gyfer TAW. Os na fyddwch yn cofrestru ar gyfer TAW ar yr adeg gywir, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu cosb yn ogystal ag unrhyw TAW sy'n ddyledus.

**Cwestiwn 10 A ydych am wneud cais i gael eich eithrio rhag cofrestru?**

Gallwch wneud cais am ‘eithriad’ rhag cofrestru os yw’ch trosiant trethadwy yn mynd dros y trothwy cofrestru ar gyfer TAW ac rydych o’r farn y bydd hyn yn rhywbeth dros dro yn unig. Mae’n rhaid i chi ddewis y rheswm priodol am fynd dros y trothwy o naill ai cwestiwn 7, 8 neu 9 ac yna dewis y blwch perthnasol i wneud cais am eithriad.

Darparwch lythyr eglurhaol gyda thystiolaeth sy’n dangos pam yr ydych o’r farn y bydd eich trosiant trethadwy TAW yn disgyn o dan y trothwy presennol ar gyfer datgofrestru rhag TAW cyn pen 12 mis, a hynny’n dechrau o’r dyddiad yr aethoch dros y trothwy cofrestru.

Er mwyn i CThEF allu ystyried eich cais am eithriad, llenwch ffurflen VAT1 yn llawn. Os caiff eich eithriad ei wrthod, byddwch yn cael eich cofrestru a byddwch yn cael Rhif Cofrestru TAW.

**Cwestiwn 11 A ydych am wneud cais i gael eich eithrio rhag cofrestru?**

Gallwch wneud cais i gael eich eithrio rhag cofrestru os oes rhaid i chi gofrestru ar gyfer TAW oherwydd eich bod wedi mynd dros y trothwy cofrestru ar gyfer TAW yn naill ai cwestiwn 7, 8 neu 9, ond mae’ch cyflenwadau trethadwy yn gyfradd sero i gyd, neu’n bennaf. (Gweler ‘Cyflenwadau ar gyfradd sero’ yn yr Eirfa ar dudalen 15.)

Os yw cyflenwadau ar gyfradd sero, ynghyd â chyflenwadau ar gyfradd safonol a chyfradd is, yn gysylltiedig, bydd angen i chi ddangos i ni y byddech mewn sefyllfa ad-dalu cyffredinol dros y 12 mis nesaf.

Er mwyn i CThEF allu ystyried eich cais am eithriad, mae’n rhaid i chi ddewis y rheswm priodol am fynd dros y trothwy o naill ai cwestiwn 7, 8 neu 9 ac yna dewis y blwch perthnasol i wneud cais am eithriad.

Rhag ofn na fydd CThEF yn caniatáu eithriad, gwnewch y siŵr eich bod yn ateb cwestiwn 22 ac yn llenwi ffurflen VAT1 yn llawn fel bod gennym yr wybodaeth i’n helpu i wneud penderfyniad ynghylch caniatáu eithriad.

**Cwestiwn 12 Gwerthu o bell i mewn i Ogledd Iwerddon o wledydd yn yr UE**

Dewiswch yr opsiwn hwn ac yna atodwch ffurflen VAT1A os ydych yn gwerthu nwyddau o bell i mewn i Ogledd Iwerddon o wledydd yn yr UE, ac mae gwerth eich gwerthiannau o bell yn fwy na’r trothwy ar gyfer gwerthiannau o bell mewn blwyddyn calendr. Os ydych yn gwerthu nwyddau ecséis o bell, megis alcohol neu dybaco, bydd yn rhaid i chi gofrestru ar gyfer TAW a Tholl Ecséis yn y DU, ni waeth beth yw gwerth eich gwerthiannau. Nid yw gwerthiannau a wnewch i gwsmeriaid sydd wedi’u cofrestru ar gyfer TAW yn cyfrif fel gwerthiannau o bell.

Os ydych y tu allan i’r UE, nid yw unrhyw werthiannau a wnewch o aelod-wladwriaeth nad yw’n rhan o’r UE i’r DU yn cyfrif fel gwerthiannau o bell.

**Cwestiwn 13 Caffaeliadau i mewn i Ogledd Iwerddon o wledydd yn yr UE**

Dewiswch yr opsiwn hwn ac yna atodwch ffurflen VAT1B i gofrestru ar gyfer TAW yn y DU os ydych yn caffael nwyddau o aelod-wladwriaethau’r UE er mwyn dod â nhw i mewn i Ogledd Iwerddon, ac rydych wedi mynd dros y trothwy ar gyfer caffael.

**Cwestiwn 14 Cynllun Cyfradd Unffurf Amaethyddol**

Dewiswch yr opsiwn hwn ac yna atodwch ffurflen VAT98 os ydych am gofrestru ar gyfer y Cynllun Cyfradd Unffurf Amaethyddol yn hytrach na chofrestru ar gyfer TAW.

Os ydych yn cofrestru fel ffermwr cyfradd unffurf, nid oes angen i chi roi cyfrif am TAW na chyflwyno Ffurflenni TAW. Ni allwch godi TAW ar eich gwerthiannau, ac ni allwch adennill TAW ar eich pryniannau. Ond gallwch godi a chadw Ychwanegiad Cyfradd Unffurf (FRA) wrth werthu eitemau i gwsmeriaid sydd wedi’u cofrestru ar gyfer TAW.

**Cwestiwn 15 Gwaredu asedion**

Dewiswch yr opsiwn hwn ac yna atodwch ffurflen VAT1C os oes angen i chi gofrestru ar gyfer TAW oherwydd eich bod yn bwriadu gwaredu asedion yr ydych chi, neu ragflaenydd, wedi hawlio, neu’n bwriadu hawlio, ad-daliad TAW o dan drefniadau ad-dalu Cyfarwyddeb 2008/9 neu’r 13eg Cyfarwyddeb.

**Cwestiwn 16 Cofrestriad cynharach**

Gallai rhai busnesau elwa o gofrestru ar gyfer TAW yn wirfoddol cyn y dyddiad pryd y byddant yn dod yn agored i gofrestru. Er enghraifft, efallai y byddwch yn dymuno hawlio'n ôl y TAW a godwyd arnoch am dreuliau sy'n ymwneud â sefydlu eich busnes.

Yn dibynnu ar rai amodau, gallwch hawlio TAW yn ôl ar y canlynol:

- nwyddau a brynwyd gennych ar gyfer eich busnes yn y 4 blynedd diwethaf, ar yr amod nad ydych wedi eu gwerthu
- gwasanaethau a gawsoch ddim mwy na 6 mis cyn eich dyddiad cofrestru – nodwch o ba ddyddiad yr ydych eisiau cael eich cofrestru, os yw'r dyddiad hwnnw yn gynharach na'r dyddiad y mae'n ofynnol i chi gofrestru (ond ni allwn dderbyn dyddiad cynharach na 4 blynedd o'r dyddiad y mae'n ofynnol i chi fod wedi cofrestru).

Os byddwch yn gofyn am ddyddiad cynharach na'r dyddiad y mae'n ofynnol i chi gofrestru, a bod CThEF yn cytuno i hynny, bydd yn rhaid i chi roi cyfrif am dreth allbwn ar eich holl gyflenwadau trethadwy o'r dyddiad cynharaf. Pan fyddwn wedi cytuno ar ddyddiad, nid oes modd iddo gael ei newid yn ddiweddarach (oni bai ein bod yn canfod y dylech for wedi cofrestru o ddyddiad sy'n gynharach na'r un a gytunwyd gennym).

## Eich trosiant

**Cwestiwn 17 Nodwch eich amcangyfrif o'ch cyflenwadau trethadwy yn ystod y 12 mis nesaf**

Er mwyn amcangyfrif eich cyflenwadau trethadwy, gwiriwch eich trosiant trethadwy dros y 12 mis diwethaf. Trosiant trethadwy ar gyfer TAW yw cyfanswm gwerth eich cyflenwadau sy'n cael eu trethi ar y gyfradd safonol, ar gyfradd is neu ar gyfradd sero. Nid yw cyflenwi nwyddau a gwasanaethau sydd wedi'u heithrio rhag TAW yn rhan o'ch trosiant trethadwy. Os ydych yn ymwybodol o unrhyw newidiadau i'ch busnes a fydd yn effeithio ar y trosiant hwnnw, dylai'r ffactorau hynny gael eu hadlewyrchu yn eich amcangyfrif.

**Cwestiwn 18 A ydych yn disgwyl gwneud unrhyw gyflenwadau sydd wedi'u hesemptio?**

Gweler tudalen 14 am enghreifftiau o gyflenwadau sydd wedi'u hesemptio.

**Cwestiwn 19 A ydych yn disgwyl cael nwyddau yng Ngogledd Iwerddon o aelod-wladwriaeth'r UE yn ystod y 12 mis nesaf?**

Os ateboch yn gadarnhaol, nodwch werth y nwyddau yr ydych yn disgwyl eu cael yng Ngogledd Iwerddon yn ystod y 12 mis sy'n dilyn eich dyddiad cofrestru.

Os ydych yn disgwyl gwerthu nwyddau sydd wedi'u lleoli yng Ngogledd Iwerddon adeg eu gwerthu, neu os ydych yn disgwyl gwerthu nwyddau o Ogledd Iwerddon i aelod-wladwriaeth'r UE yn ystod y 12 mis nesaf, nodwch werth y nwyddau yr ydych yn meddwl y byddwch yn eu gwerthu yn ystod y 12 mis sy'n dilyn eich dyddiad cofrestru.

Peidiwch â chynnwys gwerth unrhyw wasanaethau os nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â symud nwyddau (er enghraifft comisiwn, yswiriant cludo nwyddau ac ati).

**Cwestiwn 20 Gweithgareddau busnes**

Rhowch ddisgrifiad llawn o'ch holl weithgareddau busnes, gan gynnwys:

- y mathau o nwyddau a gwasanaethau a gyflenwir gennych
- a yw'ch cyflenwadau yn 'manwerthu' neu'n 'cyfanwerthu'

Bydd disgwyl i chi nodi'n fanwl yr hyn yr ydych yn ei wneud. Peidiwch â defnyddio termau cyffredinol er enghraifft:

- yn lle nodi 'gwasanaethau adeiladu', nodwch 'plastrwr' neu 'trydanwr'
- yn lle nodi 'ymgynghoriaeth', nodwch 'ymgynghoriaeth rheoli' neu 'ymgynghoriaeth ariannol'

Os nad ydych wedi dechrau masnachu, nodwch fanylion y gweithgareddau busnes rydych yn bwriadu eu gwneud.

Os oes gan eich busnes fwy nac un gweithgaredd, nodwch unrhyw weithgaredd arall.

I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at Hysbysiad TAW 700, 'Y canllaw TAW'.

**Tir ac eiddo**

Os yw'ch gweithgareddau busnes yn ymwneud â phrynu neu werthu tir neu eiddo, neu roi tir neu eiddo ar osod, bydd angen gwybodaeth bellach ar CThEF am hyn, a dylech lenwi a chyflwyno ffurflen VAT5L, 'Cofrestru ar gyfer TAW – tir ac eiddo' gyda'ch VAT1 'Cais i gofrestru'.

Os ydych am drethu tir neu eiddo, bydd angen i chi lenwi naill ai ffurflen VAT1614A, 'Hysbysiad o opsiwn i drethu tir ac adeiladau' neu ffurflen VAT1614H, 'Cais am ganiatâd i drethu tir neu adeiladau'.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk a chwilio am 'VAT5L' neu 'VAT Notice 742A Opting to tax land and buildings'.

**Gwerthu nwyddau**

Dylech lenwi'r adran hon os gwnaethoch roi tic ar gyfer 'dim yn fusnes y DU neu fusnes sydd heb ei sefydlu yn y DU', ac yn gwerthu nwyddau yn uniongyrchol o'ch gwefan.

Os ydych yn defnyddio warws cyflawni, dylai'r rhain gael eu cofrestru â'r Cynllun Diwydrwydd Dyladwy ar gyfer Busnesau Cyflawni (FHDDS). Mae manylion o'r rhif FHDDS i'w cael ar ein gwefan. Ewch i www.gov.uk a chwilio am 'Fulfilment House Due Diligence Scheme Registered Businesses List'.

**Darparwyr llafur**

Os yw'ch busnes yn darparu eich gweithwyr i ymgymryd â thasgau neu ddarparu gwasanaethau ar gyfer busnesau eraill (gall hyn fod eich busnes i gyd neu'n rhan ohono), rydych yn ddarparwr llafur.

Nodwch y nifer o weithwyr yr ydych yn eu cyflogi, neu'n bwriadu eu cyflogi, ar ffurflen VAT1.

Diffinnir 'cyfryngwr' fel person sy'n gwneud trefniadau ar gyfer cyflenwad sydd i'w wneud rhwng 2 berson arall, neu sy'n hwyluso'r trefniadau hyn. Os yw'ch busnes yn gwneud trefniadau ar gyfer y ddarpariaeth dros dro o weithwyr nad ydych yn cyflogi'n uniongyrchol (gall hyn fod eich busnes i gyd neu'n rhan ohono), llenwch y cwestiwn cyfryngwr.

**Cyflenwadau penodol**

Os ydych yn cofrestru oherwydd eich bod yn gwneud cyflenwadau penodol, mae'n rhaid i chi nodi 'CYFLENWADAU PENODOL / SPECIFIED SUPPLIES' yn glir pan ydych yn disgrifio gweithgareddau'ch busnes

**Cod SIC**

Rhowch god Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) sy'n rhoi'r disgrifiad orau o'ch gweithgareddau busnes. I gael rhestr o godau, ewch i www.gov.uk/government/publications/standard-industrial-classification-of-economic-activities-sic.cy

**Cwestiwn 21 A ydych chi (neu unrhyw un o'r partneriaid neu'r cyfarwyddwyr yn y busnes hwn) yn gysylltiedig ar hyn o bryd, neu wedi bod yn gysylltiedig yn y 2 flynedd ddiwethaf, ag unrhyw fusnes arall yn y DU neu Ynys Manaw (boed yn fusnes sydd wedi'i gofrestru ar gyfer TAW ai peidio) naill ai fel unig fasnachwr, partner neu gyfarwyddwr?**

Dylech gynnwys unrhyw fusnes arall lle y mae partneriaid neu gyfarwyddwyr y busnes wedi bod yn gysylltiedig ac yn gwneud y cais hwn. Os mai unig gysylltiad blaenorol y cyfarwyddwyr oedd gyda chwmnïau a oedd yn aelodau o grŵp corfforaethol, dim ond enwau'r cwmnïau daliannol y mae angen i chi eu nodi.

Os ydych yn cofrestru cwmni sy'n rhan o grŵp corfforaethol, dim ond enw'r cwmni daliannol y mae angen i chi ei nodi. Os yw unrhyw rai o'r cwmnïau daliannol y byddwch yn eu nodi wedi'u cofrestru ar gyfer TAW, neu yn rhan o grŵp TAW, nodwch eu Rhifau Cofrestru TAW. Os nad yw'r busnes wedi'i gofrestru ar gyfer TAW, nodwch unrhyw gyfeirnod treth CThEF (er enghraifft SA UTR neu CT UTR).

**Cwestiwn 22 Ad-daliad TAW**

A ydych yn disgwyl i'r TAW ar eich pryniannau fynd y tu hwnt i'r TAW ar eich cyflenwadau trethadwy yn rheolaidd? Mae'r cwestiwn hwn ynghylch p'un a yw'r busnes yn debygol o gael ad-daliadau rheolaidd gan CThEF oherwydd bod y cyflenwadau trethadwy ar gyfradd sero yn bennaf. Os ydych yn bwriadu gofyn am eithriad rhag cofrestru (cwestiwn 11), dylech ateb y cwestiwn hwn nawr, rhag ofn na chaniateir eithriad.

**Cwestiwn 23 Cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu yn y DU**

Mae'n rhaid i'r cyfrif hwn fod yn gyfrif a ddelir yn y DU, ac mae'n rhaid i enw'r cyfrif gyfateb i enw'r busnes yr ydych yn ei gofrestru gyda CThEF. Bydd CThEF yn ad-dalu unrhyw TAW sy'n ddyledus i'r busnes yn electronig, yn uniongyrchol i'r cyfrif.

Sylwer: ni all rhai cyfrifon dderbyn taliadau'n electronig, felly gwiriwch gyda'ch darparwr os nad ydych yn siŵr a all eich cyfrif wneud hynny. Os ydych yn y broses o agor cyfrif busnes, mae'n rhaid i chi roi copïau o unrhyw ohebiaeth berthnasol a gafwyd gan eich banc neu gymdeithas adeiladu.

Os nad oes gennych gyfrif banc yn y DU, esboniwch pam drwy ddewis un o'r 4 rheswm yng nghwestiwn 23:.

1 Cyfrif banc wrthi'n cael ei sefydlu
2 Yn aros am fanylion banc gan y banc
3 Mae gan y busnes gyfrif banc tramor
4 Yn aros am newid enw yn y banc (er enghraifft, o unig fasnachwr i gwmni cyfyngedig)

**Cwestiwn 24 Cyfnodau Ffurflen TAW**

**MA, MB neu MC – Ffurflenni TAW chwarterol**

Yn gyffredinol, caiff Ffurflenni TAW eu cyflwyno'n chwarterol. Dewiswch y cyfnod priodol ar gyfer y misoedd pan ydych am i'ch cyfnodau cyflwyno ddod i ben. Defnyddir hyn i osod y ceisiadau Ffurflen TAW ar-lein neu Ffurflenni TAW Troi Treth yn Ddigidol (MTD) gan ein system. Mae'n bosibl na fydd CThEF yn gallu bodloni'ch cais a rhoi cyfnod cyflwyno yn unol â dyddiad eich cofrestriad.

**MM – Ffurflenni TAW Misol**

Roedd ceisiadau am y rhain fel arfer yn cael eu gwneud gan gwmnïau sydd mewn sefyllfa ad-daliadau cyson. Nid yw hyn bellach yn wir, a gall busnesau sydd fel arfer yn talu TAW nawr gwneud cais i gael Ffurflenni TAW misol.

**AA – Ffurflen TAW Cyfrifyddu blynyddol**

Os hoffech gael Ffurflenni TAW blynyddol, llenwch ac atodwch ffurflen VAT600 i'r cais hwn.

**NSTP – Cyfnodau treth ansafonol**

Os nad yw'ch system gyfrifyddu'n seiliedig ar fisoedd calendr, gallwch wneud cais i gael cyfnodau treth sy'n cyd-fynd â'ch system yn well. Nodwch fanylion y cyfnodau treth y gofynnwyd amdanynt ar ddalen o bapur a'i hatodi i'r cais hwn.

Gall cyfnodau treth ansafonol fod naill ai'n fisol neu'n chwarterol.

Mae'n rhaid i gyfnodau treth ansafonol misol ddod i ben 14 diwrnod y naill ochr i ddyddiad dod i ben cyfnod treth safonol.

Mae'n rhaid i gyfnodau treth ansafonol chwarterol ddod i ben 20 diwrnod y naill ochr i ddyddiad dod i ben cyfnod treth safonol.

Dylech gyfrif y dyddiau o ddiwrnod olaf y mis, naill ai 28, 30 neu 31 – gan gyfrif y diwrnod olaf hwnnw fel diwrnod un. Er enghraifft, os cyfrifwch yn ôl o'r 28 fel diwrnod un, 27 fel diwrnod 2.

Os ydych wedi cael cymeradwyaeth i ddefnyddio cyfnodau treth arbennig, bydd CThEF yn rhoi tystysgrif gofrestru TAW newydd i chi ar eich cyfrif treth busnes. Bydd eich Ffurflenni TAW yn dangos dyddiadau'r cyfnodau arbennig a gymeradwywyd.

Beth bynnag yw'ch cyfnodau treth, peidiwch ag addasu'r dyddiadau a ddangosir ar y Ffurflen TAW.

**Cwestiwn 25 Manylion yr ymgeisydd**

Mae CThEF yn gyfrifol am gynnal a gofalu am dreth, ac mae dyletswydd arno i ddiogelu'r refeniw. O ganlyniad, mae angen i CThEF wybod pwy yw'r 'person naturiol' y tu ôl i unrhyw gofrestriad TAW.

Mae'n rhaid i'r personau a restrir yn yr adran hon ddarparu eu henw llawn, cyfeiriad cartref, dyddiad geni a rhif Yswiriant Gwladol (neu ID Treth os yw'r ymgeisydd yn wladolyn tramor).

Os byddwch yn darparu ID Treth, mae'n rhaid i chi roi 3 eitem o dystiolaeth ddogfennol i brofi pwy ydych. Dyma'r 3 eitem sy'n ofynnol:

- un copi o lun sy'n dangos pwy ydych, a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth, megis pasbort, trwydded yrru sy'n cynnwys llun neu gerdyn adnabod cenedlaethol
- 2 gopi o ohebiaeth sy'n cynnwys eich enw a'ch cyfeiriad, megis cyfriflen banc neu gyfriflen cerdyn credyd neu fil cyfleustod diweddar

Lle bo hynny'n bosibl, ac i osgoi oedi wrth gofrestru, darparwch ddogfennau o'r 3 mis diwethaf.

Anfonwch lungopïau, nid dogfennau gwreiddiol, gan nad oes modd dychwelyd dogfennau gwreiddiol.

## Rhestr wirio

Bydd defnyddio'r rhestr wirio hon yn eich helpu i sicrhau eich bod wedi llenwi'r ffurflen yn gywir ac wedi cynnwys unrhyw ffurflenni a dogfennau eraill yr ydym wedi gofyn i chi eu hanfon.

Os nad ydych yn siŵr beth i'w wneud, darllenwch y nodiadau ynghylch y cwestiynau, neu ffoniwch ein Llinell Gymorth TAW ar 0300 200 3705.

### Ffurflen VAT1 – ym mhob achos

Sicrhewch eich bod wedi:

cynnwys eich enw llawn (cwestiwn 25) ☐

cynnwys eich rhif Yswiriant Gwladol (cwestiwn 25)

cynnwys manylion cysylltu (cwestiwn 25) ☐

llofnodi a rhoi dyddiad ar y ffurflen (cwestiwn 1) ☐

### Ffurflen VAT1 – mewn rhai achosion

**Os yw'r busnes yn gorff corfforedig (cwestiwn 2)**
Gwiriwch eich bod wedi nodi manylion o'r Dystysgrif Ymgorffori ☐

**Os ydych wedi rhoi gwybodaeth ar ddalennau o bapur ar wahân**
Gwiriwch fod enw a chyfeiriad yr ymgeisydd wedi'u hysgrifennu ar frig pob dudalen ☐

### Gwiriwch pa ffurflenni y mae angen i chi eu hanfon i CThEF gyda ffurflen VAT1

**Ffurflen VAT2**

Yn berthnasol os yw'r busnes yn bartneriaeth (cwestiwn 1).
Ewch i www.gov.uk/government/publications/vat-partnership-details-vat2.cy ☐

**Ffurflen VAT50-51**

Mae hyn yn berthnasol os ateboch yn gadarnhaol i gwestiwn 3. I wneud cais i gofrestru grŵp TAW neu i ddiwygio'ch manylion.
Ewch i www.gov.uk/government/publications/apply-for-vat-group-registration-or-amend-your-details.cy ☐

**Ffurflen VAT5L**

Yn berthnasol os yw gweithgareddau'r busnes yn ymwneud â thir ac eiddo (cwestiwn 20).
Ewch i www.gov.uk/guidance/tell-hmrc-about-land-and-property-supplies-youre-making.cy ☐

**Ffurflen VAT1614A**

Yn berthnasol os ydych yn dymuno dewis trethu tir neu eiddo ac y gallwch wneud hynny heb ganiatâd (cwestiwn 20).
Ewch i www.gov.uk/government/publications/vat- notification-of-an-option-to-tax-land-andor-buildings-vat1614a ☐

**Ffurflen VAT1614H**

Dim ond yn berthnasol os ydych am drethu tir neu eiddo, ond ni allwch wneud hynny heb ganiatâd gan CThEF (cwestiwn 20).
Ewch i www.gov.uk/government/publications/vat-application-for-permission-to-opt-vat1614h ☐

**Ffurflen VAT68**

Yn berthnasol os ateboch yn gadarnhaol i gwestiwn 5. Mae'n rhaid i chi lenwi'r ffurflen hon os ydych yn gwneud cais i drosglwyddo rhif TAW presennol.
Ewch i www.gov.uk/government/publications/vat-request-for-transfer-of-a-registration-number-vat68.cy ☐

## Ble i anfon eich ffurflen gais ar ôl ei llenwi

Anfonwch eich ceisiadau cofrestru i:

BT VAT
Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF
HMRC
BX9 1ST

## Geirfa

Rydym yn defnyddio rhai termau penodol ar gyfer TAW. Dyma'r rhai y mae angen i chi eu gwybod er mwyn llenwi eich ffurflen VAT1. Os oes angen rhagor o help arnoch, gwiriwch y nodiadau i'r cwestiynau.

Mae'r Hysbysiadau TAW ar gael ar ein gwefan. Ewch i www.gov.uk a chwilio am 'VAT Notice'.

### Corff corfforaethol

Grŵp o unigolion sy'n cael eu hadnabod gan enw penodol sy'n gweithredu fel endid cyfreithiol unigol.

Mae'r canlynol yn cael eu hystyried yn gyrff corfforaethol:

- cwmnïau cyfyngedig (a'r hyn sy'n cyfateb dramor)
- cwmnïau a sefydlwyd gan Siarter Frenhinol, Breinlythyrau neu Ddeddfau Seneddol
- Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig
- grwpiau budd economaidd Ewropeaidd
- cymdeithasau cyfeillgar, diwydiannol a darbodus

### Yr Undeb Ewropeaidd

Mae'r gwledydd canlynol yn aelodau:

| | | |
|---|---|---|
| Awstria | Ffrainc | Malta |
| Gwlad Belg | Yr Almaen | Yr Iseldiroedd |
| Bwlgaria | Gwlad Groeg | Gwlad Pwyl |
| Croatia* | Hwngari | Portiwgal |
| Cyprus** | Iwerddon | România |
| Y Weriniaeth Tsiec | Yr Eidal | Slovakia |
| Denmarc | Latvia | Slovenia |
| Estonia | Lithuania | Sbaen |
| Y Ffindir | Lwcsembwrg | Sweden |

* O 1 Gorffennaf 2013 ymlaen.

** Ac eithrio'r rhan o Cyprus sydd o dan reolaeth Twrci.

### Cyflenwadau wedi'u hesemptio

Cyflenwadau wedi'u hesemptio yw cyflenwadau busnes nad ydynt yn denu TAW ar gyfradd safonol, cyfradd is, na chyfradd sero. Nid ydynt yn rhan o'ch trosiant trethadwy ar gyfer TAW. Os ydych wedi cofrestru ar gyfer TAW, ac yn gwneud cyflenwadau wedi'u heithrio, efallai na fyddwch yn gallu hawlio'n ôl eich holl TAW fewnbwn.

Mae'r rhan fwyaf o gyflenwadau nwyddau a gwasanaethau yn y DU yn gyflenwadau trethadwy oni bai eu bod wedi'u hesemptio'n benodol drwy gyfraith – mae'r rhain yn gyflenwadau wedi'u hesemptio. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- rhai mathau o werthu tir ac adeiladau, prydlesu tir ac adeiladau a rhoi tir ac adeiladau ar osod
- yswiriant
- betio, hapchwarae a lotrïau (ond nid elw peiriannau ffrwythau)
- darparu credyd
- hyfforddiant ac addysg benodol
- digwyddiadau codi arian gan elusennau
- tâl aelodaeth i rai sefydliadau
- gwasanaethau a ddarperir gan feddygon a deintyddion
- rhai mathau o wasanaethau a ddarperir gan drefnwyr angladdau

Mae arweiniad ar gael ynghylch bob eithriad yn www.gov.uk neu drwy ffonio ein Llinell Gymorth TAW ar 0300 200 3705.

### Treth fewnbwn

Treth fewnbwn yw'r TAW a dalwch ar y nwyddau a'r gwasanaethau a brynwch i'w defnyddio wrth redeg eich busnes.

### Treth allbwn

Treth allbwn yw'r TAW sy'n ddyledus ar eich cyflenwadau trethadwy.

### Cyfradd is

Mae'r rhain yn gyflenwadau trethadwy y mae'r gyfradd bresennol TAW arnynt yn 5%. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- cyflenwadau o danwydd neu bŵer domestig
- gosod deunyddiau arbed ynni

Nid yw'r rhestr hon yn un gynhwysfawr, a gellir cael rhagor o wybodaeth am gyflenwadau ar gyfradd is yn www.gov.uk neu drwy ffonio ein Llinell Gymorth TAW ar 0300 200 3705.

### Cyfradd safonol

Cyfradd safonol yw'r gyfradd TAW ar gyfer y rhan fwyaf o nwyddau a gwasanaethau.

### Cyflenwi

Cyflenwi yw gwerthu nwyddau neu wasanaethau, gan gynnwys cyfnewid.

### Cyflenwi nwyddau

Cyflenwi nwyddau yw pan fo perchnogaeth unigryw o nwyddau yn symud o un person i un arall.

### Cyflenwi gwasanaethau

Cyflenwi gwasanaethau yw pan fo rhywun yn gwneud rhywbeth am gydnabyddiaeth – heb law am gyflenwi nwyddau.

### Rhwymedigaeth treth

Os nad yw cyflenwadau ar gyfradd sero neu wedi'u heithrio, mae'n rhaid iddynt fod yn agored i TAW ar y gyfradd safonol neu'r gyfradd is.

## Cyflenwadau trethadwy

Mae hwn yn derm cyfreithiol y mae llawer o bobl yn ei gael yn ddryslyd. Yn y rhan fwyaf o achosion, 'cyflenwi' yw gwerthu nwyddau neu wasanaethau, gan gynnwys cyfnewid. Mae'r gyfraith yn diffinio 'cyflenwadau trethadwy' fel unrhyw gyflenwi a wneir yn y DU nad yw wedi'i esemptio rhag TAW. Hynny yw, mae unrhyw gyflenwad nad yw wedi'i esemptio yn gyflenwad trethadwy, p'un a yw'r cyflenwr wedi'i gofrestru ar gyfer TAW ai peidio.

Mae cyflenwadau trethadwy yn cynnwys y rheini sydd ar gyfradd sero. Nid yw'n ofynnol i berson roi cyfrif am TAW ar gyflenwadau trethadwy a wneir ar adeg pan nad yw'n ofynnol iddo fod wedi cofrestru ar gyfer TAW ac nad yw wedi cofrestru ar gyfer TAW yn wirfoddol.

## Trosiant trethadwy

Trosiant trethadwy ar gyfer TAW yw cyfanswm gwerth eich cyflenwadau sy'n cael eu trethu ar y gyfradd safonol, ar gyfradd is neu ar gyfradd sero. (Nid yw cyflenwi nwyddau a gwasanaethau sydd wedi'u hesemptio rhag TAW yn rhan o'ch trosiant trethadwy.)

At ddibenion cofrestru ar gyfer TAW, mae angen i chi wirio'r trosiant yn y 12 mis diwethaf neu lai a'r/neu'r 30 diwrnod nesaf yn unig. Gweler ffurflen VAT1, cwestiynau 14, 15 a 20.

## Trosglwyddo busnes fel busnes byw

Os ydych wedi cymryd busnes drosodd fel busnes byw gan rywun a oedd, neu yr oedd yn ofynnol iddo fod wedi, cofrestru ar gyfer TAW, mae'r gyfraith yn ystyried eich bod wedi ymgymryd â'r busnes sy'n cael ei drosglwyddo cyn y trosglwyddiad i ddibenion sefydlu pa bryd y dylech gofrestru ar gyfer TAW. Mae'r gyfraith hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r person sy'n trosglwyddo'r busnes roi'r cofnodion i chi sy'n ymwneud â'r busnes sy'n cael ei drosglwyddo, oni bai ein bod wedi rhoi caniatâd iddynt eu cadw. Os bydd hyn yn digwydd, dylech ofyn am gopïau o'r cofnodion perthnasol, a rhaid i chi eu cadw ar gyfer eu harchwilio.

## Corff anghorfforedig

Corff anghorfforedig yw cymdeithas o bobl neu gyrff y mae gan eu haelodau ddiben cyffredin, sy'n bodoli'n annibynnol ar ei aelodau. Er enghraifft clybiau, cymdeithasau ac ati. Gweler ffurflen VAT1, cwestiwn 2.

## Treth Ar Werth (TAW)

Treth ar Werth (TAW) yw treth ar wariant defnyddwyr. Bydd busnesau sydd wedi cofrestru yn codi TAW pan fyddant yn cyflenwi eu nwyddau a'u gwasanaethau yn y DU. Codir TAW hefyd ar fewnforio neu gaffael y rhan fwyaf o nwyddau, a rhai gwasanaethau, a dderbynnir o'r tu allan i'r DU.

## Grŵp TAW

Mae grŵp TAW yn caniatáu i 2 neu fwy o gyrff corfforedig gael eu trin fel un endid TAW. O fewn y grŵp bydd Aelod Cynrychiadol sy'n gyfrifol am roi cyfrif am TAW y grŵp cyfan. I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at Hysbysiad TAW 700/2 'Cofrestru grwpiau ac isadrannau'.

## Cyflenwadau cyfradd sero

Cyflenwadau cyfradd sero – mae hyn yn berthnasol i gyflenwadau megis bwyd, llyfrau, papurau newydd a dillad plant ifanc.

Nid yw'r rhestr hon yn un gynhwysfawr, a gellir cael rhagor o wybodaeth ynghylch cyfraddau sero yn www.gov.uk neu drwy ffonio ein Llinell Gymorth TAW ar 0300 200 3705.

# Ynglŷn â CThEF

## Eich hawliau a'ch ymrwymiadau

Mae Siarter CThEF yn egluro'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym ni, a'r hyn a ddisgwyliwn gennych chi. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/government/publications/hmrc-charter.cy

## Sut yr ydym yn defnyddio'ch gwybodaeth

Mae CThEF yn Rheolydd Data o dan Ddeddf Diogelu Data 2018. Rydym yn cadw gwybodaeth at y dibenion a bennir yn ein hysbysiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth, gan gynnwys asesu a chasglu trethi a thollau, talu budd-daliadau ac atal a chanfod troseddau, a gallwn ddefnyddio'r wybodaeth hon at unrhyw un o'r dibenion hynny.

Mae'n bosibl y cawn wybodaeth amdanoch gan eraill, neu efallai y byddwn yn rhoi gwybodaeth iddynt. Os gwnawn hynny, bydd yn unol â'r hyn y mae'r gyfraith yn caniatáu yn unig, a hynny er mwyn gwneud y canlynol:

- gwirio cywirdeb gwybodaeth
- atal neu ganfod troseddau
- diogelu arian cyhoeddus

Mae'n bosibl y byddwn yn cymharu gwybodaeth a gawn amdanoch â'r hyn sydd eisoes yn ein cofnodion. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a roddwyd gennych chi, yn ogystal â chan eraill, megis asiantaethau neu adrannau eraill o'r llywodraeth ac awdurdodau treth a thollau tramor. Ni fyddwn yn rhoi gwybodaeth i unrhyw un y tu allan i CThEF oni bai bod y gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny.

## Cwynion

Os ydych yn anfodlon ar ein gwasanaeth, cysylltwch â'r person y buoch yn delio ag ef neu'r swyddfa y buoch yn delio â hi. Byddant yn ceisio unioni pethau. Os ydych yn dal i fod yn anfodlon, byddant yn rhoi gwybod i chi sut i gwyno.

Os ydych am wybod mwy ynghylch cwyno, ewch i www.gov.uk/cwyno-am-cthem